Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ein gwaith ar Wasanaethau Anabledd Dysgu

## Adroddiad ar beth rydyn ni wedi'i wneud yn 2022 i 2026



Ebrill 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Gynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022-2026: Adroddiad Terfynu**.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**E-bost:** Andrew.stevenson@gov.wales

**Ffôn:** 0300 025 5936

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys


**Am yr adroddiad yma ........ 4**

**Beth rydyn ni wedi'i wneud ........ 8**


1. Gweithio gyda'n gilydd ........ 10
2. Dod dros COVID ........ 14
3. Iechyd a gofal cymdeithasol ........ 16
4. Byw'n annibynnol ........ 27
5. Addysg ........ 29
6. Swyddi a sgiliau ........ 31
7. Tai ........ 33
8. Trafnidiaeth ........ 34

# Am yr adroddiad yma

Ni ydy Llywodraeth Cymru.




Mae'r adroddiad  yma am y gwaith rydyn ni wedi'i wneud i wella Gwasanaethau Anabledd Dysgu.





Mae'n dweud pa waith rydyn ni wedi'i wneud i gyflawni ein nodau yn y cynllun yma - Gwasanaethau Anabledd Dysgu - Ein cynlluniau ar gyfer 2022 i 2026

Rydyn ni wedi rhannu'r gwaith yma yn 8 maes pwysig:



1. Gweithio gyda'n gilydd



2. Dod dros COVID



3. Iechyd a gofal cymdeithasol



4. Byw'n annibynnol



5. Addysg




6. Swyddi a sgiliau



7. Cartref



8. Trafnidiaeth



**Newyddion da:**

- Mae pethau'n gwella.



- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu i helpu mwy o bobl.



- Mae llai o bobl yn aros yn yr ysbyty pan nad oes angen.



**Y dyfodol:**

- Dydy'r holl waith ddim wedi'i orffen eto.





- Fe fydd cynllun newydd yn dechrau yn 2026 i barhau i wneud pethau'n well am y tair blynedd nesaf.

# Beth rydyn ni wedi'i wneud



Mae'r rhan fwyaf o'r tasgau wedi'u gorffen neu bron wedi'u gorffen.




Mae rhai o'r tasgau yn rhan o gynllun hirach. Mae hyn yn meddwl y bydd y gwaith yn parhau am amser hir.



Mae angen mwy o waith i wneud yn siŵr bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys.




Rydyn ni'n gwneud canllawiau newydd i weithwyr proffesiynol. Fel eu bod nhw'n gallu helpu pobl i gael y gwasanaethau sydd eu hangen.




Fe fydd rheolau newydd ar gyfer taliadau uniongyrchol yn dechrau ar 1 Ebrill 2026.



Mae angen treulio mwy o amser yn helpu pobl i gael gwasanaethau **eiriolaeth**. Dydy hyn ddim wedi gwella cymaint ag roedden ni'n gobeithio. Fe fydd hyn yn ffocws mawr yn y dyfodol.



**Eiriolaeth** ydy pan fydd rhywun yn eich helpu chi ac yn siarad drosoch chi



Doedd gwaith i helpu pobl gyda chyfeillgarwch a pherthnasoedd ddim wedi dechrau pan oedd i fod.




Rydyn ni'n gweithio gyda'r **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu** i benderfynu a fyddwn ni'n gweithio ar hyn yn y dyfodol.



Mae'r **Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu** yn cael ei alw yn **LDMAG** yn fyr.

# 1. Gweithio gyda'n gilydd




Fe wnaethon ni gynllun gweithredu yn 2022.




Mae wedi cael ei edrych arno bob blwyddyn - mae'n mynd yn dda.




Mae Llywodraeth Cymru, LDMAG a'r GIG nawr yn gwneud cynllun newydd ar gyfer 2026 i 2029.



Mae LDMAG yn cyfarfod bob 3 mis. Mae eu gwaith yn bwysig ac mae'n mynd yn dda.



Fe wnaethon nhw weithio'n galed i gynnwys pawb mewn cyfarfodydd. Fe wnaethon nhw edrych ar sut i wella eu gwaith a'i rannu gyda mwy o bobl.




Dydy rhai pobl ddim yn cael eu cynrychioli'n dda mewn gwaith anabledd dysgu. Er enghraifft, pobl Ddu ac Asiaidd.




Mae grŵp wedi cael ei sefydlu i edrych ar sut mae polisïau yn effeithio ar wahanol grwpiau.



Fe fydd y cynlluniau anabledd dysgu newydd yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynnwys yn deg.



Fe wnaerth astudiaeth yn 2024 ddweud nad oedd yn bosibl sefydlu **Arsyllfa Anabledd Dysgu**. Roedd hyn oherwydd arian, staff a phwysau eraill.




Mae **Arsyllfa Anabledd Dysgu** yn lle i gasglu a chadw gwybodaeth am bobl ag anabledd dysgu.




Yn lle'r Arsyllfa, mae'r GIG yn gwella sut mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i defnyddio.



Maen nhw wedi cyflogi arbenigwr ar ddata. Maen nhw wedi dechrau defnyddio'r data sydd wedi cael ei gasglu mewn ffordd well.




Bob 4 mis, rydyn ni'n edrych bod popeth yn mynd yn dda.




Mae'r fframwaith lleihau arferion cyfyngol yn mynd yn dda.




Mae hwn yn gynllun i leihau'r defnydd o bethau mewn gofal sy'n cymryd dewis a rhyddid pobl i ffwrdd



Rydyn ni wedi newid sut mae pethau'n cael eu hadrodd. Felly rydyn ni'n gwybod pryd nad ydy pethau'n iawn a sut i'w gwneud yn well.



Rydyn ni wedi gweithio gyda byrddau iechyd i wneud yn siŵr eu bod yn dilyn y fframwaith lleihau arferion cyfyngol.



Mae **cyd-gynhyrchu** nawr yn rhan arferol o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud gyda phawb.




**Cyd-gynhyrchu** ydy pan fydd pobl a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a gwneud penderfyniadau.




Fe fydd mwy o waith yn cael ei wneud ar hyn i wneud yn siŵr bod **cyd-gynhyrchu** yn flaenoriaeth.

# 2. Dod dros COVID




Fe wnaethon ni ysgrifennu cynlluniau ar gyfer **presgripsiynu cymdeithasol** i helpu gweithwyr proffesiynol i wneud hynny'n dda.



Mae **presgripsiynu cymdeithasol** yn ffordd o'ch helpu i gael y gefnogaeth rydych chi ei angen. A dod o hyd i lawer o ffyrdd i wella eich iechyd a'ch llesiant.



Fe fyddwn ni'n parhau i edrych bod **presgripsiynu cymdeithasol** yn gweithio.




Mae gwella llesiant yn rhan o'n holl waith.



Rydyn ni'n cefnogi Gwasanaethau Anabledd Dysgu i ofalu am iechyd meddwl pobl.




Mae dysgu o COVID yn helpu i wneud polisïau newydd.




Unwaith y bydd yr **Ymchwiliad Covid** wedi'i orffen, fe fyddwn ni'n edrych ar beth sydd angen i ni ei wella.



Mae'r **Ymchwiliad Covid** yn ymchwil i'r effaith a gafodd COVID-19 ar bobl a'r genedl.

# 3. Iechyd a gofal cymdeithasol




Rydyn ni'n dal i weithio ar argymhellion [Gwella Bywydau](Gwella Bywydau).



Mae hwn yn ddarn o waith sy'n canolbwyntio ar wella iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu.



Yn 2022 fe wnaethon ni sefydlu grŵp i wella gwasanaethau anabledd dysgu. Maen nhw wedi gwneud llawer o waith da.



Mae'r GIG yn edrych i weld bod gwasanaethau'n gwneud yn dda. Maen nhw'n casglu gwybodaeth am faint o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.



Yn 2024, edrychodd grŵp ar adeiladau ysbytai'r GIG a chytuno bod angen gwella pethau.



Mae byrddau iechyd lleol a chynghorau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr nad ydy pobl yn treulio amser rhy hir yn yr ysbyty. Ac i geisio stopio pobl rhag mynd i'r ysbyty.



Rydyn ni wedi gwella'r archwiliadau sy'n cael eu gwneud pan fydd rhywun ag anabledd dysgu yn marw.




Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am hyn. Helpu pob gwasanaeth i ddysgu a gwella.



Fe wnaethon ni ddechrau defnyddio **hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd Dysgu Paul Ridd** yn 2022.



Mae'r rhan fwyaf o staff y GIG wedi gwneud yr hyfforddiant.



Mae mwy o hyfforddiant cyfoes yn cael ei ysgrifennu ac fe fydd yn cael ei roi i staff yn y dyfodol.



Mae **Datganiad Ansawdd Anabledd Dysgu Integredig newydd** wedi cael ei ysgrifennu.



Mae hyn yn dweud sut olwg sydd ar iechyd a gofal cymdeithasol da i bobl ag anableddau dysgu.



Fe wnaeth pobl anabl helpu i ysgrifennu’r datganiad.




Fe wnaethon ni roi arian i fyrddau iechyd i wella Archwiliadau Iechyd Blynyddol.



Fe wnaethon ni roi gwybodaeth, adnoddau a hyfforddiant i staff i’w helpu i wneud Archwiliadau Iechyd Blynyddol.




Rydyn ni wedi darparu mwy o gyllid fel bod pobl yn gallu cael archwiliadau iechyd blynyddol gan eu meddygon teulu lleol.



Fe wnaethon ni sefydlu gweithgor i wella profiad pobl o Archwiliadau Iechyd Blynyddol.




Fe wnaethon ni ddechrau gwefan newydd o’r enw Gofalwch am eich Iechyd Cymru.



Fe fyddwn ni’n parhau i weithio i gael mwy o bobl i gael Archwiliad Iechyd Blynyddol.




Fe wnaethon ni gefnogi byrddau iechyd i ddilyn y Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd. Mae hwn yn ganllaw ar gyfer gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael iechyd da.



Rydyn ni'n gweithio i'w gwneud hi'n haws i'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol ei ddilyn.




Fe wnaethon ni Proffil Iechyd Unwaith i Gymru.




Dyma ffordd i bobl ag anabledd dysgu rannu gwybodaeth bwysig gyda staff gofal iechyd.



Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod amdano ac yn ei ddefnyddio.



Fe wnaethon ni wneud gwybodaeth Hawdd ei Ddeall i helpu pobl ag anableddau dysgu i gael brechlynnau - meddyginiaeth sy'n helpu'ch corff i ymladd clefydau. Mae'n helpu i'ch cadw'n ddiogel rhag mynd yn sâl iawn.



Fe wnaethon ni gefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i annog pobl ag anableddau dysgu i fynd i sgrinio coluddyn.



Rydyn ni wedi gweithio i wella systemau cyfrifiadurol. Fel bod staff iechyd yn gwybod pryd mae gan rywun anabledd dysgu.



Rydyn ni wedi edrych ar y **bwndel gofal acíwt anabledd dysgu**. Dyma ffordd i ysbytai weithio'n well gyda phobl ag anabledd dysgu.



Rydyn ni wedi gwneud gwaith i wneud yn siŵr bod cleifion anabledd dysgu â Dementia yn cael gofal priodol.



Mae yna grŵp sy’n canolbwyntio ar bobl sy’n byw ar eu pennau eu hunain ac yn unig.



Mae’r grŵp yma yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu nawr.



Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddefnyddio i sefydlu grwpiau cymdeithasol lleol.



Ac i edrych ar sut mae newidiadau i wasanaethau dydd yn effeithio ar bobl.



Fe fyddwn ni’n parhau i weithio ar hyn.




Mae gennym ni gynllun newydd ar gyfer gofalwyr di-dâl.




Fel rhan o'r cynllun newydd, fe fyddwn ni'n parhau i ddarparu arian ar gyfer seibiannau byr hyd at 2029.



Rydyn ni'n gweithio gyda gwasanaethau i wneud yn siŵr bod mwy o gyfleoedd a gwasanaethau dydd i bobl ag anabledd dysgu.



Mae ein gwaith ar adael i bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd yn mynd yn dda.




Mae gennym ni ddeddf newydd i helpu i wneud i hyn ddigwydd.




Fe fydd mwy o ganllawiau a rheolau ar gyfer hyn ym mis Ebrill 2026.



Rydyn ni'n gweithio gyda thimau i wneud yn siŵr bod y system newydd yn gweithio.




Fe wnaethon ni ganllawiau newydd ar gyfer cefnogi rhieni ag anabledd dysgu ym mis Ebrill 2023.




Fe wnaethon ni edrych ar y Ddeddf **Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014**.




Fe fyddwn ni'n cynnwys beth rydyn ni wedi ei ddysgu yn y **Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol**. Fe fydd hwn yn wasanaeth fel y GIG, ond ar gyfer gofal cymdeithasol.



Rydyn ni'n cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol trwy gynyddu eu cyflog a gwella amodau gwaith.



Rydyn ni'n rhoi £7 miliwn y flwyddyn i hyfforddiant staff gofal cymdeithasol. Mae cynghorau lleol hefyd yn rhoi £3 miliwn.



Rydyn ni wedi gwneud ymchwil i weithio allan lle mae Nyrsys Anabledd Dysgu eu hangen fwyaf.



Mae arbenigwr ar anableddau dysgu ac iechyd meddwl wedi cael ei gyflogi gan y llywodraeth.



Mae'r GIG yn darparu cymorth i nyrsys anabledd dysgu mewn ysbytai.



Maen nhw'n helpu i gofnodi'r effaith dda mae'r nyrsys yn ei chael ar gleifion.





Rydyn ni wedi ysgrifennu cynllun newydd o'r enw **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl**.



Mae pobl wedi cael cais i ddweud beth maen nhw'n feddwl am y cynllun. Fe fydd yn barod ym mis Ebrill 2026.

# 4. Byw'n annibynnol




Fe wnaeth adroddiad gael ei wneud yn 2024 am wasanaethau eiriolaeth.



Rydyn ni'n defnyddio'r adroddiad yma i benderfynu beth i'w wneud nesaf.




Mae llawer o waith i'w wneud. Fe fydd yn rhan o'r cynllun 3 blynedd nesaf.



Rydyn ni wedi bod yn cefnogi pobl i ddefnyddio technoleg a chadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.



Mae ymchwilwyr yn edrych ar sut mae peidio â deall sut i ddefnyddio technoleg yn ddiogel yn cysylltu gyda phobl sydd ag iechyd gwaeth.




Fe fydd yr adroddiad o'r ymchwil yma allan yn 2026.



Dydy'r gwaith ar gyfeillgarwch a pherthnasoedd ddim wedi dechrau eto.




Mae'r gwaith yma yn bwysig. Mae'n cael ei gynnwys mewn gwaith arall fel ein gwaith ar wasanaethau dydd ac unigrwydd.



Mae angen i LDMAG benderfynu os dylid canolbwyntio ar hyn eto yn y dyfodol.

# 5. Addysg




Roedd yna 6 prosiect i weld sut rydyn ni'n gallu cefnogi pobl ag **anghenion cymhleth** yn well.



Mae angen llawer o gefnogaeth ar bobl ag **anghenion cymhleth** gyda bywyd bob dydd. Maen nhw'n cael cymorth gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae Prifysgol Wrecsam yn gwneud ymchwil ar weithwyr proffesiynol a theuluoedd i weld sut mae gwasanaethau yn gallu cael eu gwella.



Mae'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio yng Nghymru. Mae'r system yn cefnogi dros 32,000 o ddysgwyr.



Mae helpu teuluoedd sydd â phlant ag ADY yn bwysig iawn. Rydyn ni wedi creu adnoddau newydd fel pecyn cymorth rhieni ADY i'w helpu.



Mae hefyd yn bwysig parhau i gyfathrebu'n dda â theuluoedd. Mae hyn yn flaenoriaeth yn y dyfodol.

# 6. Swyddi a sgiliau



Rydyn ni'n gweithio'n galed i gefnogi pobl anabl i gael swyddi â thâl.



Mae gennym ni Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl. Maen nhw'n cefnogi cyflogwyr.



Mae pobl yn gallu cael hyfforddwr swyddi nawr i'w helpu i gael gwaith cyflogedig.




Rydyn ni eisiau ei gwneud hi'n haws i bobl ag anabledd dysgu gael swydd.




Does gennym ni ddim digon o wybodaeth am **brentisiaethau** ac anableddau dysgu eto.



Mae **prentisiaeth** yn meddwl gweithio a dysgu ar yr un pryd. Mae person sy'n gwneud **prentisiaeth** yn cael eu galw yn brentis.




Rydyn ni'n gosod targedau yn 2021 i gyflogi mwy o brentisiaid anabl. Bob blwyddyn ers 2021, rydyn ni wedi cyflawni'r nodau yma.



Does gennym ni ddim digon o brentisiaethau ar gyfer pobl anabl eto.

# 7. Tai



Rhaid i gynghorau lleol a byrddau iechyd drin pobl ag anableddau dysgu fel blaenoriaeth.



Rydyn ni eisiau i bawb gael yr un safon dda o ofal ar draws Cymru.



Mae’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn helpu i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael gofal iechyd da.



Mae’r gronfa yn cefnogi 750,000 o bobl a 3000 o staff bob blwyddyn. Mae cymorth anabledd dysgu yn brif ffocws.

# 8. Trafnidiaeth



Un o nodau'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol (2023) oedd gwella trafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl.



Rydyn ni'n darparu tocynnau am ddim neu rhatach i bobl hŷn ac anabl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.



Rydyn ni'n gwario arian ar drenau newydd  fydd yn haws i bobl anabl eu defnyddio.



Mae gan Trafnidiaeth Cymru gynllun i wella trafnidiaeth i bobl anabl.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247